# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 22 Ebrill 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion

(259)

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 1 a 6 gan y Dirprwy Weinidog Iechyd. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 14.18

Gofynnwyd y cwestiwn.

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 14.21

Gofynnwyd y cwestiwn.

### 4 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

Dechreuodd yr eitem am 14.26

**Gohiriwyd y bleidlais ar y Cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NNDM5715**
**Bethan Jenkins**
**William Graham**
**Lynne Neagle**
**William Powell**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i

a) annog moratoriwm ar gloddio glo brig ledled Cymru, er mwyn canfod a yw cyfraith cynllunio a chanllawiau cyfredol yn darparu digon o amddiffyniad i gymunedau yr effeithir arnynt gan gloddio glo brig;

b) ymateb i ymchwil i'r methiant i adfer safleodd glo brig yn ne Cymru, gan ddatgan yn benodol sut y gallai fynd i'r afael â phryderon ynghylch pa mor ymarferol yw MTAN2 a'r glustogfa 500 medr; ac

c) cynorthwyo awdurdodau lleol yr effeithir arnynt i wneud heriau cyfreithiol, lle bo angen, wrth geisio adfer safleoedd.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 16 | 0 | 46 |

**Derbyniwyd y Cynnig.**

**5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 15.12

**Gohiriwyd y bleidlais ar y Cynnig a'r Gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5742 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y bu polisïau Llywodraeth y DU ers 2010 yn hanfodol yn y gwaith o adfer economïau'r DU a Chymru;

2. Yn cydnabod ymhellach fod economi gynyddol gryf y DU wedi tanategu twf yn y sector preifat a chreu dros 2 filiwn o swyddi; a

3. Yn cydnabod mai sector preifat ffyniannus yw'r sylfaen ar gyfer cynnal ein gwasanaethau cyhoeddus.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 37 | 46 |

**Gwrthodwyd y Cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod bod rhaglen galedi Llywodraeth y DU wedi methu yn erbyn ei thelerau ei hun ac yn gresynu at effeithiau economaidd a chymdeithasol y toriad diangen o 10% yng nghyllideb Cymru ers 2010.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 0 | 14 | 46 |

**Derbyniwyd Gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 – Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu cyfleoedd gwaith newydd ond yn gresynu at y ffaith bod 17,000 o'r swyddi newydd a grëwyd yng Nghymru ers 2010 wedi bod yn rhan-amser.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 0 | 14 | 46 |

**Derbyniwyd Gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith mai economi'r DU yw'r economi sy'n tyfu'n gyflymaf o blith gwledydd y G7.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 23 | 0 | 24 | 47 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y Gwelliant. Felly gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 4 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith bod treth incwm 1.2 miliwn o bobl yng Nghymru wedi cael ei dorri o £800, diolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llywodraeth y DU yn cynyddu'r trothwy lwfans personol.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 9 | 32 | 46 |

**Gwrthodwyd Gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod yn rhaid inni fantoli'r cyfrifon yn deg, gyda buddsoddiad mewn sgiliau uchel, economi carbon isel, dileu'r diffyg yn y gyllideb strwythurol erbyn 2017-18, sicrhau bod y bobl gyfoethocaf yn talu cyfran deg drwy gyflwyno treth plasty, ac

amddiffyn y mwyaf agored i niwed o fewn cymdeithas.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 0 | 41 | 46 |

**Gwrthodwyd Gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5742 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod rhaglen galedi Llywodraeth y DU wedi methu yn erbyn ei thelerau ei hun ac yn gresynu at effeithiau economaidd a chymdeithasol y toriad diangen o 10% yng nghyllideb Cymru ers 2010.;

2. Yn croesawu cyfleoedd gwaith newydd ond yn gresynu at y ffaith bod 17,000 o'r swyddi newydd a grëwyd yng Nghymru ers 2010 wedi bod yn rhan-amser.

3. Yn cydnabod mai sector preifat ffyniannus yw'r sylfaen ar gyfer cynnal ein gwasanaethau cyhoeddus.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 0 | 14 | 46 |

**Derbyniwyd y Cynnig wedi'i ddiwygio.**

**6 Dadl Plaid Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 16.13

**Gohiriwyd y bleidlais ar y Cynnig a'r Gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5741 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd sefydliadau addysg bellach i ddarparu addysg ôl-16;

2. Yn nodi pwysigrwydd darparu cyfleoedd dysgu i oedolion ar gyfer oedolion sydd am ddatblygu sgiliau newydd;

3. Yn gresynu at effaith y toriadau i addysg ôl-16 ar y sector addysg bellach; a

4. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fonitro tâl uwch reolwyr mewn addysg uwch yn flynyddol ac yn annog hynny i gael ei ymestyn i addysg bellach.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 0 | 9 | 46 |

**Derbyniwyd y Cynnig heb ei ddiwygio.**

## 7 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.15

## 8 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.19

**NDM3740 Russell George (Sir Drefaldwyn)**

Gofal Iechyd yng nghanolbarth Cymru

Yr heriau sydd ynghlwm â darparu gofal iechyd yng nghefn gwlad canolbarth Cymru mewn cyd-destun trawsffiniol a materion sy'n ymwneud ag Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru.

## 9 Dadl Fer - Tynnwyd yn ôl

**NDM5726 Leanne Wood (Canol De Cymru)**

Darparu difidend datganoli ar gyfer Cymru gyfan

Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n deillio o ddatganoli i wneud yn siŵr bod yr holl wlad yn elwa arnynt.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.46

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 28 Ebrill 2015**